



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ASESIAD LLESIANT





CYFLWYNIAD



Er mwyn bodloni'r gofynion statudol a geir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, mae Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Castell-nedd Port Talbot wedi paratoi asesiad drafft o lesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot (CNPT). Mae gofyn bod Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus yn cyflawni'r broses hon bob pum mlynedd. Cynhyrchwyd ein hasesiad cyntaf yn 2017.

Nod yr asesiad yw crynhoi cryfderau ac asedau pobl a chymunedau ar draws Castell-nedd Port Talbot. Mae hefyd yn ceisio disgrifio'r heriau a'r cyfleoedd mae Castell-nedd Port Talbot yn eu hwynebu nawr ac yn y dyfodol.

CEFNDIR



Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.

Mae hyn yn golygu bod rhaid i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf wneud eu gwaith mewn modd cynaliadwy. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn cyflwyno "egwyddor datblygu cynaliadwy" sy'n ymwneud â sut dylai'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf fynd ati i gyflawni eu dyletswydd llesiant o dan y Ddeddf.

“ Yn y Ddeddf hon, ystyr “datblygu cynaliadwy” yw'r broses o wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru drwy weithredu, yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy, gan anelu at gyrraedd y nodau llesiant.
Rhan 2 'Gwella Llesiant', adran 2 'Datblygu cynaliadwy'. ”



Mae'r egwyddor yn cynnwys pum ffordd o weithio y mae gofyn bod cyrff cyhoeddus yn eu cymryd i ystyriaeth wrth gymhwyso datblygu cynaliadwy, sef:

- Edrych ar y tymor hir, fel nad ydym yn peryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.
- Mabwysiadu dull gweithredu integredig fel bod cyrff cyhoeddus yn edrych ar y nodau llesiant wrth benderfynu ar eu hamcanion llesiant.
- Cynnwys amrywiaeth o'r boblogaeth yn y penderfyniadau sy'n effeithio arnynt.
- Gweithio ar y cyd ag eraill i gael hyd i atebion cynaliadwy a rennir.
- Deall achosion gwaelodol materion sy'n codi, i'w hatal rhag digwydd eto.

Mae'r Ddeddf yn pennu saith nod llesiant sydd, o'u cyfuno, yn darparu gweledigaeth a rennir i'r cyrff cyhoeddus a restrir yn y Ddeddf weithio tuag ati. Mae'n rhaid ystyried y nodau llesiant fel cyfres integredig o saith i sicrhau bod y cysylltiadau perthnasol yn cael eu creu yng nghyd-destun gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru.



CYMRU O GYMUNEDAU CYDLYNUS

Cymunedau atyniadol, hyfyw a diogel, sydd â chysylltiadau da.



CYMRU Â DIWYLLIANT BYWIOG LLE MAE'R GYMRAEG YN FFYNNU

Cymdeithas sy'n hyrwyddo ac yn gwarchod diwylliant, treftadaeth a'r Gymraeg ac sy'n annog pobl i gyfranogi yn y celfyddydau, a chwaraeon a gweithgareddau hamdden.



CYMRU SY'N GYFRIFOL AR LEFEL FYD-EANG

Cenedl sydd, wrth iddi wneud unrhyw beth i wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, yn ystyried a allai gwneud peth o'r fath gyfrannu'n gadarnhaol at lesiant byd-eang.

BYRDDAU GWASANAETHAU CYHOEDDUS



Mae'r Ddeddf yn sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (BGCau) i bob ardal awdurdod lleol yng Nghymru. Rhaid i Aelodau Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT gynnwys:

- Cyngor Bwrdeistref Sirol Castell-nedd Port Talbot
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe
- Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru

Rhaid i bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal drwy weithio i gyflawni'r nodau llesiant. Bydd yn gwneud hyn drwy gyfrwng y canlynol:

- Asesu cyflwr llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol ei ardal; a
- Phennu amcanion i sicrhau cyfraniad gorau posib y Byrddau Gwasanaethau Lleol at y nodau llesiant.

Rhaid iddynt wneud hyn yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy.

Rhaid i bob Bwrdd baratoi a chyhoeddi cynllun yn datgan ei amcanion ei hun a'r camau y bydd yn eu cymryd i'w cyflawni. Gelwir hwn yn Gynllun Llesiant Lleol. Mae'n rhaid iddo ddweud:

- Pam mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn teimlo y bydd ei amcanion yn cyfrannu at gyflawni'r nodau llesiant yn ei ardal leol, a
- Sut mae'r amcanion a'r camau wedi cael eu pennu gan ystyried eu Hasesiad Llesiant Lleol.



METHODOLEG



Disgwyliadau Llywodraeth Cymru a Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol

Mae'r Ddeddf yn nodi beth mae'n rhaid i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus CNPT ei wneud wrth baratoi'r asesiad:

- Cyflwyno'r cymunedau sy'n rhan o CNPT.
- Dadansoddi cyflwr llesiant ym mhob cymuned a CNPT gyfan.
- Dadansoddi cyflwr llesiant y bobl yn CNPT.
- Cynnwys unrhyw ddadansoddiad pellach mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn ei gwblhau ar gyfer asesu llesiant CNPT.
- Cynnwys rhagfynegiadau tueddiadau tebygol i'r dyfodol yn CNPT.
- Cyfeirio at Ddangosyddion Cenedlaethol a gyflwynwyd gan Lywodraeth Cymru.
- Cynnwys unrhyw ddata a gwybodaeth eraill dadansoddol cysylltiedig y mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn barnu eu bod yn briodol.

Mater o bwrpas nid proses yw hyn. Mae'r asesiadau'n arwyddocaol oherwydd bod ganddyn nhw rôl bwysig wrth bennu blaenoriaethau'r BGC, a beth fydd yn y cynllun llesiant lleol.

Dylai'r Asesiad Llesiant wneud y canlynol:

- Cwmpasu pob un o'r pedwar dimensiwn llesiant (Economaid, Cymdeithasol, Amgylcheddol a Diwylliannol)
- Dangos y cysylltiadau rhwng y data yn hytrach nag edrych ar elfennau'n ynysig
- Cymryd anghenion tymor hir yr ardal i ystyriaeth, yn ogystal â'r rhai tymor byr.
- Edrych ar ardal y BGC yn ei chrynswyth, ond hefyd ar gymunedau ac ardaloedd lleol llai yn ardal y BGC.
- Dylai'r dull a ddefnyddir i baratoi'r asesiad adlewyrchu'r 5 ffordd o weithio.



Yr asesiad yw'r sylfaen ar gyfer adeiladu popeth arall.

Dylai fod gan Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ddealltwriaeth gadarn, wrthrychol o'u hardal i lywio penderfyniadau ynghylch ffocws eu hymdrechion ar y cyd. Dyma lle rydym ni'n ystyried popeth, fel bod modd i ni bennu blaenoriaeth, heb gynnwys popeth yn ein cynllun llesiant lleol.

Wrth baratoi Asesiad Llesiant CNPT, casglwyd swm aruthrol o dystiolaeth a'i dadansoddi. Mae'r dystiolaeth a ddefnyddiwyd yn cynnwys gwaith ymchwil, gwybodaeth am berfformiad, dystiolaeth a gasglwyd i lywio Cynllun Datblygu Lleol y Cyngor ac asesiadau eraill cenedlaethol a lleol a gynhaliwyd (gan gynnwys yr adolygiadau a'r asesiadau statudol hynny y mae'r Ddeddf yn pennu bod rhaid i'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus eu cymryd i ystyriaeth wrth baratoi'r asesiad llesiant).

Rhaid nodi, oherwydd y pandemig, nad oedd rhai setiau data ar gael, neu roeddent wedi dyddio, ac mewn rhai ardaloedd roedd y dystiolaeth yn annigonol i sicrhau darlun clir. Mae'r amseru hefyd yn anffodus yn yr ystyr bod yr wybodaeth ddiweddaraf sydd ar gael o Gyfrifiad yn dyddio'n ôl i 2011, gyda gwybodaeth 2021 i ddod yn ddiweddarach eleni. Mae hyn yn cryfhau'r angen am adolygu'r data sy'n llywio'n gwaith yn rheolaidd, ni ddylai gael ei gyfyngu i ymarferiad bob pum mlynedd.

YMGYSYLLTU A CHYNNWYS



Yn ystod haf 2021 cyflwynodd Cyngor Castell-nedd Port Talbot holiadur yn rhan o ymgyrch ymgysylltu helaeth. Ymgynghoriad penagored yw 'Dewch i Sgwrsio', ac mae'n gyfle i'r cyhoedd drafod materion sy'n bwysig iddyn nhw. Pwrpas yr holiadur oedd darganfod beth sy'n bwysig i'r bobl sy'n byw ac yn gweithio yng Nghastell-nedd Port Talbot. Defnyddir yr adborth i ddatblygu cynllun adferiad ar gyfer y fwrdeistref sirol.

Oherwydd natur penagored y cwestiynau a ofynnwyd, cytunwyd y byddai canfyddiadau Dewch i Sgwrsio hefyd yn addas i lywio Asesiad Llesiant CNPT. Cafwyd 1,694 o ymatebion i'r holiadur. Ar ben hynny, cynhaliwyd cyfres o grwpiau ffocws ar-lein a chyfweliadau manwl gyda 30 o drigolion Cwm Afan, Dyffryn Aman, Cwm Dulais, Cwm Nedd a Chwm Tawe. Ceir rhagor o wybodaeth, gan gynnwys y fethodoleg a ddefnyddiwyd yn yr ymarferiad hwn, yma, yn yr Adroddiadau Dewch i Sgwrsio, o dan under eitem 5, Atodiadau 3 a 4.

STRWYTHUR



I fodloni gofynion statudol y Ddeddf, mae'r asesiad llesiant drafft wedi dadansoddi'r pedair colofn llesiant sy'n dilyn:

- Cymdeithasol
- Amgylcheddol
- Economaidd
- Diwylliannol

Mae hyn wedi cynnwys asesu llesiant ar draws ardal gyfan CNPT ac mewn wyth ardal gymunedol. Oherwydd argaeledd data i'w ddadansoddi, mae asesu'r gwahaniaethau rhwng yr ardaloedd cymunedol hyn yn llawn wedi bod yn heriol. Rydyn ni'n gweld hynny fel cyfle i wella. Nôl yn 2017, nododd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yr ardaloedd hyn fel yr wyth ardal gymunedol a gwmpasir gan CNPT, gan mai dyna'r ardaloedd gofodol a nodwyd yng Nghynllun Datblygu Lleol y Cyngor. Cytunwyd bod pob un o'r wyth ardal gymunedol yn cynnwys nifer o wardiau etholiadol, sef ardaloedd penodol o'r fwrdeistref sirol a ddiffiniwyd at ddibenion etholiadol, gweinyddol a chynrychioliadol. Gall etholwyr cymwys bleidleisio ym mha ward bynnag maen nhw wedi cofrestru ynddi, dros yr ymgeisydd neu'r ymgeiswyr maen nhw am eu dewis yn gynrychiolwyr iddynt ar y Cyngor Bwrdeistref Sirol.

Mae sut rydyn ni'n cynllunio, yn dylunio ac yn adeiladu ein cymunedau a'n seilwaith i'r dyfodol yn hanfodol o safbwynt ymdrin â heriau hirdymor a sicrhau llesiant yn genedlaethol ac yn lleol. Bydd yr hyn y mae ar gymunedau ei angen a'i eisiau yn dyfodol yn newid yn sylfaenol yn sgîl y galw am ddatgarboneiddio ein planed ac adfer byd natur ar frys, wrth i dueddiadau demograffig fel trefoli a phoblogaeth sy'n heneiddio barhau, ac wrth i dechnoleg barhau i newid ein ffordd o fyw a gweithio.

Mae creu lleoedd yn ddull cyfannol o fynd ati i gynllunio a dylunio datblygu a mannau penodol, ar sail canlyniadau cadarnhaol. Mae'n defnyddio potensial ardal i greu datblygiad o safon uchel a mannau cyhoeddus sy'n hybu ffyniant, iechyd, hapusrwydd a llesiant pobl yn yr ystyr ehangaf. Mae ymdrin â hyn ar sail lleoedd yn golygu, yn hytrach na chychwyn o un amcan polisi penodol, ein bod yn cychwyn o anghenion lleoedd go iawn. Rydyn ni'n defnyddio tystiolaeth am yr ardal, yn ogystal â'r manteision y gall ei hasedau eu darparu, ac yn archwilio sut adlewyrchir blaenoriaethau, risgiau a chyfleoedd cenedlaethol yn y lle hwnnw.

Er mai datblygu cynaliadwy yw'r sylfaen ar gyfer ein dull o ymdrin â'r Asesiad Llesiant yng Nghastell-nedd Port Talbot, mae'n hanfodol bod ein hasesiad a'r cynllun sy'n dilyn ymlaen o hynny wedi'i seilio ar y cryfderau a'r anghenion sy'n gwneud ein lle yn unigryw.

Amlygir yr wyth ardal gymunedol yn y map isod



Mae'r BGCau yn CNPT ac Abertawe wedi cydweithio'n agos ar hyd y broses hon, gan ddefnyddio dull gweithredu rhanbarthol lle bynnag roedd modd. Maen nhw hefyd wedi cysylltu â'r Bwrdd Partneriaeth Rhanbarthol, sydd wedi bod yn datblygu eu Hasesiad o Anghenion y Boblogaeth oddi mewn i derfynau amser tebyg. Mae hynny wedi lleihau'r angen am geisiadau lluosog am ddata, ac wedi osgoi dyblygu adnoddau ac ymdrech. Mae cynlluniau i barhau i gydlynu'r broses o goladu data ar draws y rhanbarth, er mwyn cadw darlun wedi'i ddiweddarw wrth symud ymlaen.

Mae Grŵp Golygyddol amlasiantaeth wedi bod yn rhan annatod o ddatblygiad Asesiad Llesiant CNPT. Mae hyn wedi cynnwys cynrychiolaeth o'r Cyngor, Cyfoeth Naturiol Cymru, Gwasanaeth Tân ac Achub Canolbarth a Gorllewin Cymru, Iechyd Cyhoeddus Cymru a Phrifysgol Abertawe.

Ymdriniwyd â'r asesiad cyffredinol mewn modd cydweithredol, ac mae'r grŵp Golygyddol wedi ymgysylltu â grŵp mor eang â phosibl o bartneriaid wrth gasglu'r wybodaeth ofynnol.

I ategu'r asesiad, mae BGC CNPT, mewn cydweithrediad â BGC Abertawe, wedi comisiynu Prifysgol Abertawe i gynhyrchu pennod ddadansoddol drosfwaol, i ategu'r canfyddiadau a darparu darlun ystyrlon o'r hyn mae ein gwybodaeth yn ei olygu i'n cymunedau yn CNPT. Elfennau o'r gwaith hwn sy'n creu adran Gynodeb yr Asesiad. Bydd hyn yn allweddol i lywio'n camau nesaf wrth i ni ddatblygu ein hamcanion llesiant a'n cynllun.



BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS
CASTELL-NEDD PORT TALBOT

ASESIAD LLESIANT

